Cerrig milltir pellach i fesur cynnydd ein cenedl

YMATEB GAN CGGC

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.

YDYCH CHI'N CYTUNO Â'R GARREG FILLTIR GENEDLAETHOL A GYNIGIR AR GYFER DANGOSYDD RHIF 2: DISGWYLIAD OES IACH ADEG GENI, GAN GYNNWYS Y BWLCH RHWNG Y LLEIAF A'R MWYAF DIFREINTIEDIG

2. Hoffem ddechrau drwy nodi nad ydym 100% yn hapus ag unrhyw un o'r cerrig milltir a drafodwn yn yr ymateb hwn – mae lle i wella ar bob un ohonynt. Nid oes amrywiaeth yn fformat 'ydych chi'n cytuno – ydw/nac ydw' y cwestiynau hyn. Er ein bod yn gwerthfawrogi bod cyfleoedd i ehangu yn y cwestiynau 'os ydych' ac 'os nad ydych' dilynol, y ffaith amdani yw pe bai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ffigurau sy'n dweud rhywbeth tebyg i 'dywedodd X% o bobl eu bod yn hapus â'r dangosydd hwn', nid yw'r ystadegau moel hyn yn debygol o fod yn ddarlun clir o'r gwirionedd. Byddai gallu ateb rhywbeth gan ddefnyddio graddfa sgorio siŵr o fod wedi cynnig darlun mwy llawn.

3. O ran y cwestiwn hwn felly: byddem yn cytuno â'r garreg filltir hon ar y cyfan. Fodd bynnag, amlygodd un ymatebwr y gwahaniaeth rhwng disgwyliadau oes dynion a menywod a gofynnodd am fwy o fanylder y tu ôl i'r ffigurau hyn. Nododd nad yw 'disgwyliad oes hirach' ymhlith menywod yn ystyried data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol bod menywod hefyd yn byw am lai o flynyddoedd 'heb anabledd' na dynion. Nododd hefyd fod menywod hŷn hefyd yn fwy tebygol o fod mewn tlodi. Rydym yn cytuno bod dealltwriaeth groestoriadol o'r hyn y gellir eu hystyried yn rhwystrau i 'ddisgwyliad oes iach' yn hanfodol os yw'r rhain yn mynd i gael sylw.

4. Dylai'r dangosydd hwn fynd i'r afael â'r cysylltiadau rhwng ansawdd tai a disgwyliad oes. Gall y rheini mewn tai o ansawdd gwael ddioddef o anhwylderau sy'n cael eu gwaethygu gan eu tai. Gall y rheini mewn tai o ansawdd uchel aros yn annibynnol am hirach, maen nhw'n llai tebygol o fod angen gofal yn yr ysbyty ac yn fwy tebygol o fyw'n hirach. Mae'r Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yn edrych ar rai o'r problemau hyn mewn mwy o fanylder a gall fod yn sbardun amhrisiadwy i helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged ar Ddisgwyliad Oes Iach. Mae elfen gost

hefyd yn gysylltiedig â chynnal a chadw tai o ansawdd gwael, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar Ddangosydd 18.

5. Awgrymodd nifer o bobl i ni mai targed mwy uchelgeisiol fyddai ceisio cael gwared â'r bwlch rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig. Wedi'r cwbl, dim ond bwlch bychan yw'r targed presennol, sef 15% dros 38 o flynyddoedd. Byddem yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru geisio lleihau'r bwlch mwy na hyn dros gyfnod mor hir o amser, gyda tharged mwy hirdymor o gael gwared â'r bwlch yn gyfan gwbl.

SUT GALL Y SECTOR GWIRFODDOL HELPU I GYFLAWNI'R GARREG FILLTIR HON?

6. Nid yw hwn yn gwestiwn a ofynnwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, credwn y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru glywed yr hyn y gall y sector gwirfoddol ei wneud i'w helpu i gyflawni'r nodau a nodwyd yn y rhaglen hon, felly rydym wedi gofyn y cwestiwn hwn i'r sector o ran pob adran rydym yn ymateb iddi.
    - Gall presgripsiynu cymdeithasol chwarae rôl allweddol mewn helpu pobl i fyw'n hirach a gwella eu hiechyd a lles. Mae rôl y sector mewn gwasanaethau rhyddhau o'r ysbyty hefyd yn hanfodol yn y maes hwn.
    - Mae mudiadau llawr gwlad a arweinir gan ac ar ran pobl â nodweddion gwarchodedig yn chwarae rôl hanfodol o ran lleisio anghenion cymunedau, gan gynnwys y rheini sy'n ddifreintiedig. Gall y mudiadau hyn chwarae rôl allweddol wrth lunio polisïau, ond mae'n rhaid iddynt gael eu grymuso a'u cefnogi i wneud hynny.
    - Gall y sector ddarparu gwasanaethau mwy hygyrch, mwy o drafnidiaeth ddi-garbon a mwy o lwybrau cerdded a beicio, ond mae'n rhaid iddynt gael eu cyllido mewn modd cynaliadwy i wneud hynny.
    - O ran codi'r disgwyliadau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gallai gweithio gyda phobl ganol oed, yn ogystal â gydag ieuenctid a phobl hŷn, ar eu hamodau byw fod yn arbennig o bwysig.

YDYCH CHI'N CYTUNO Â'R GARREG FILLTIR A GYNIGIR AR GYFER DANGOSYDD RHIF 18: TLODI INCWM O'I GYMHARU Â CHANOLRIF Y DU

7. Eto, rydym yn cytuno â'r garreg filltir hon yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae newidiadau buddiol y gellid eu gwneud. Yn gyntaf, byddai'n ddefnyddiol cael diffiniad mwy eglur o'r hyn a olygir wrth 'nodweddion allweddol'. Mae'r nodweddion a ddefnyddir yn y ddogfennaeth yn gyfuniad o rai o'r Nodweddion Gwarchodedig o'r Ddeddf Cydraddoldeb (sonnir am anabledd a hil), ynghyd â 'phlant'. Mae'n hanfodol bod pawb yn deall beth yn union yw'r nodweddion hyn fel ein bod yn gwybod beth sy'n cael ei fesur. Ar y pwnc hwn, mae'n werth nodi bod niferoedd anghymesur o rai grwpiau arbennig o bobl yn byw mewn tlodi - er enghraifft, ceiswyr lloches - nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y Ddeddf Cydraddoldeb, ond sy'n gorfod cael eu hystyried yn gyffredinol o fewn y garreg filltir hon.

8. Wrth sôn am fesur, mae ymrwymiad i osod 'targed twf ymestynnol', ond ni wyddys pryd yn union fydd hwn yn cael ei osod. Er eglurder a mesur yn gywir, mae'n rhaid i hwn gael ei osod pan gyhoeddir yr adroddiad terfynol.

9. Mae'n ddefnyddiol cofio ein bod mewn argyfwng costau byw ar hyn o bryd, a bydd hwn dim ond yn gwaethygu yn y dyfodol agos. Bydd hyn, heb amheuaeth, yn cael effaith enfawr ar bolisi incwm, yng Nghymru a ledled y DU.

SUT GALL Y SECTOR GWIRFODDOL HELPU I GYFLAWNI'R GARREG FILLTIR HON?

10.

- Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gweithio'n gyson ac yn barhaus gyda'r sector gwirfoddol i helpu i gyflawni nodau'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Caiff y rheini o Gymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig eu heffeithio'n anghymesur gan dlodi, felly mae'n hanfodol bod y Cynllun yn cael ei ystyried mewn unrhyw waith a ddyluniwyd i drechu tlodi.
- Byddai'n ddefnyddiol i'r sector gwirfoddol (yn enwedig gwasanaethau eirioli) a Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth i gyfuno'r holl ddata yng Nghymru ar fudd-daliadau a mynediad i waith. Fel hyn, gallwn gael darlun cyffredinol llawnach o incymau pobl a'r gwasanaethau/cyngor y maen nhw'n chwilio amdanynt.
- Ni ddylid anwybyddu cefn gwlad Cymru mewn gwaith tuag at y garreg filltir hon. Mae'r sector mewn sefyllfa well na'r mwyafrif i gyrraedd cymunedau ynysig, deall eu hanghenion a rhoi cymorth. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru ar hyn.

YDYCH CHI'N CYTUNO Â'R GARREG FILLTIR GENEDLAETHOL AR GYFER DANGOSYDD RHIF 28: CANRAN Y BOBL SY'N GWIRFODDOLI?

11. Awgryma ein gwaith ymgysylltu bod y sector yn cytuno â'r garreg filltir hon yn gyffredinol, ond bod gan y mwyafrif rai amheuon, a bod lleiafrif sylweddol yn credu ei bod yn gwbl anaddas.

12. Mae'r prif bryderon a fynegwyd i ni yn ymwneud â'r heriau o gael gafael ar ddata ystyrlon i lywio'r garreg filltir hon.

13. Nododd ymatebwyr ein harolwg y gellid cyflawni cynnydd cenedlaethol o 10%, ond byddai'n parhau i guddio gwahaniaethau rhanbarthol eang yn y niferoedd sy'n gwirfoddoli. Dengys y Data o'r Arolwg Cenedlaethol yn 2019-20 sgôr amrywiant leol o 24.4, gyda gwyriad safonol o bron 5%. Nid yw tueddiadau tyfu a dirywio lleol yn dilyn patrwm unffurf chwaith. Er enghraifft, rydym wedi gweld nifer y gwirfoddolwyr yn gostwng yn genedlaethol, o 28% yn 2016-17 i 26% yn 2019-20, ond os edrychwn yn agosach, mae'r ganran ar gyfer y sir â'r sgôr isaf ar gyfer y cyfnod hwn wedi syrthio o 20.7% i 15.9%, ac mae'r sir â'r sgôr uchaf wedi nodi cynnydd, o 30.8% i 32.9%. Yn yr enghraifft eithafol hon, aeth y sir â'r sgôr uchaf o gael un rhan o dair yn fwy o wirfoddolwyr i gael mwy na ddwywaith y nifer oedd gan y sir â'r sgôr isaf dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae pryder nad yw'r garreg filltir yn ystyried gwahaniaethau rhanbarthol a gallai guddio'r realiti bod bylchau canran gwirfoddoli'n ehangu.

14. Mesuriad arall na ystyrir yw amrywiaeth y bobl sy'n gwirfoddoli. Yn sgil yr argyfwng costau byw, mae'r sector yn poeni am anghydraddoldebau dyfnach dyfnach. Er mwyn cyflawni ein huchelgais fel cenedl sy'n gwirfoddoli, mae angen i ni sicrhau bod gwirfoddoli yn hygyrch i bawb - i bobl o bob oed, modd, cefndir, hil, gallu a ffordd o fyw. Mae'n bosibl y gallwn gyflawni'r cynnydd o 10% heb amrywio ein cyfleoedd gwirfoddoli, ac felly ein carfan o wirfoddolwyr, o gwbl - ac yn y modd hwn, yn cyrraedd y garreg filltir, ond yn methu â chyflawni nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol am Gymru fwy Cyfartal.

15. Mae'n bwysig nodi y byddai unrhyw ddata a gasglwyd dim ond yn cyflwyno darlun anghyflawn cyhyd â bod 'gwirfoddoli' yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Yn aml, ni chaiff ffurfiau anffurfiol, cymdogol o wirfoddoli, fel y lliaws o weithgareddau a welsom yn ystod y pandemig, eu hadrodd gan fod unigolion yn meddwl yn aml mai'r rheini sy'n rhoi o'u hamser i elusen gofrestredig neu grŵp cymunedol sy'n deilwng o'r label gwirfoddoli. Hyd yn oed bryd hynny, mae cymunedau ffydd yn cynrychioli grwpiau cyfundrefnol sy'n aml yn dibynnu'n gryf ar weithredu gwirfoddol; ond byddai'r unigolion sy'n rhoi o'u hamser yn disgrifio eu cyfraniad fel gwaith 'gweinidogol' neu 'ufuddhau i Dduw' yn hytrach na gwirfoddoli ac ni fyddent yn debygol o nodi eu bod yn wirfoddolwr mewn arolwg.

16. O ran dichonoldeb y targed, dadleuodd rhai o'r ymatebwyr nad oedd y garreg filltir yn ddigon uchelgeisiol, a theimlai eraill y gallai argyfwng costau byw hirfaith effeithio ar ein gallu i hyd yn oed cyrraedd targed gweddol uchelgeisiol. Mae yna ymdeimlad cryf bod y ffordd y caiff y garreg filltir ei chyrraedd yn bwysicach na'r ganran ei hun - a yw'r twf yn gynaliadwy, yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal ac a oes gan bob unigolyn yng Nghymru fynediad a chyfle cyfartal i wirfoddoli?

17. Mae llawer o'r awgrymiadau rydym wedi'u derbyn o blaid yr argymhellion i randdeiliaid fel yr amlinellir yn y papur ymgynghoriad, gan gynnwys mesur yr oriau a wirfoddolwyd, ehangu'r dangosyddion i ddangos effaith gwirfoddoli'n well, cynnwys pobl iau, a chasglu data ar amrywiaeth. Ynghyd â hyn, credir bod datblygu cysylltiadau â'r sector preifat drwy gydweithrediadau a thrwy waith mentrau cymdeithasol yn agwedd bwysig ar adeiladu cenedl sy'n gwirfoddoli, serch y diffyg monitro ffurfiol drwy'r garreg filltir hon.

SUT GALL Y SECTOR GWIRFODDOL HELPU I GYFLAWNI'R GARREG FILLTIR HON?

18.

- Gall y sector helpu i ddarparu hyfforddiant i hwyluso cynhwysiant, cysylltiadau â chymunedau difreintiedig, arbenigedd ar yr hyn sydd ei angen i ehangu neu sefydlu gweithgareddau gwirfoddoli. Byddwn bob amser yn amlygu buddion gwirfoddoli, gan hyrwyddo'r ffaith y gall y rheini sy'n gwirfoddoli gael cymaint o fudd â'r bobl y maen nhw'n eu cefnogi. Fodd bynnag, bydd angen i'r sector barhau i gael cyllid cynaliadwy er mwyn galluogi cyfleoedd gwirfoddoli i gael eu datblygu gyda'r cymorth priodol. Ni ellir cyflawni'r garreg filltir hon heb sicrhau amgylchedd sefydlog yn y sector gwirfoddol.

YDYCH CHI'N CYTUNO Â'R GARREG FILLTIR GENEDLAETHOL A GYNIGIR AR GYFER DANGOSYDD RHIF 44: STATWS AMRYWIAETH FIOLEGOL YNG NGHYMRU?

19. Hwn yw'r dangosydd y byddai CGGC yn rhoi'r croeso mwyaf diamod iddo; ond mae'r sector wedi cwestiynu elfennau ohono o hyd. Mae'r rhain yn edrych ar yr amserlen yn benodol, gyda rhai'n awgrymu y dylid ceisio cael adferiad amlwg cyn 2050. Byddai'n syniad da i osod rhai targedau sylfaenol, fel sefydlogrwydd net niferoedd y rhywogaethau a warchodir ar draws cyfnod diffiniedig o bum mlynedd.

20. Dywedodd un mudiad fod y data sy'n cael ei ddefnyddio yn gul iawn, gan nodi 'dosbarthu rhywogaethau â blaenoriaeth', felly nid yw'n cyflwyno digon o sail dros fesur cynnydd ar 'statws rhywogaethau ac ecosystemau' mewn modd trylwyr a chadarn. Byddai datblygu Dangosydd 44 ymhellach yn helpu yma, ynghyd â chysylltiad mwy amlwg â Dangosydd 43, a datblygu dangosydd ar gyfer y doreth o rywogaethau.

21. Awgrymwyd hefyd, er bod lleihau'r ddibyniaeth gemegol ar fwyd a ffermio i'w ganmol, dylai hyn fynd law yn llaw a chynyddu bwyd organig a phermaddiwylliant.

SUT GALL Y SECTOR GWIRFODDOL HELPU I GYFLAWNI'R GARREG FILLTIR HON?

22.

- Gall y sector gwirfoddol weithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i osod y llinellau sylfaen, rhannu data a monitro'r effaith. A chyda golwg ar hyn, mae'n rhaid cydnabod nad yw'r garreg filltir hon gyfwerth â'r targedau adfer natur sydd wedi'u rhwymo mewn cyfraith y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w cyflwyno mewn deddfwriaeth. Mae'r targedau hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth brys i wrthdroi'r byd natur sy'n cael ei golli yng Nghymru a darparu atebolrwydd llawn.
- Gall y sector weithio gyda chymunedau i gydgynllunio prosiectau er mwyn datblygu technegau lleihau a lliniaru llwyddiannus, ac addysgu awdurdodau lleol ar raglenni a thechnegau adfer bioamrywiaeth. Mae ganddo rôl allweddol i'w chwarae mewn rhannu gwybodaeth am fioamrywiaeth a phlannu awydd o fewn pobl i warchod natur.
- Gall darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned helpu i addysgu pobl ar bwysigrwydd bioamrywiaeth.

SUT, YN EICH BARN CHI, Y DYLEM ROI GWYBOD I BOBL A CHYMUNEDAU CYMRU AM Y CERRIG MILLTIR CENEDLAETHOL?

23. Bydd yn bwysig cyfathrebu mewn Cymraeg Clir/Plain English er mwyn hwyluso'r ddealltwriaeth o bwysigrwydd a gwerth y gwaith hwn. Mae hwn yn cynnwys llawer o ddata a jargon, felly rhaid gwneud pob ymdrech i gyfathrebu mor syml â phosibl. Byddai strategaeth gyfathrebu syml o ran natur, sbardunau a chanlyniadau arfaethedig y Cerrig Milltir Cenedlaethol yn sicrhau cyfathrebu effeithiol a dealltwriaeth genedlaethol gryfach.

24. Ni ddylai'r cyfathrebu ddigwydd ar-lein yn unig. Mae gan bapurau newydd, y radio a'r teledu rôl i'w chwarae o hyd, yn enwedig o ran cael y negeseuon hyn allan i bobl hŷn.

25. Mae'r sector gwirfoddol yn allweddol i gyflawni'r Dangosyddion a'r Cerrig Milltir hyn, ac felly nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylid gofyn i'r sector helpu i gyfathrebu â chymunedau, y sector cyhoeddus a Llywodraeth Cymru ac i weithio gyda nhw mewn modd cydgynhyrchiol er mwyn dangos pam mae hwn yn waith pwysig sy'n effeithio ar bawb yng Nghymru ac – yn hanfodol – sut gall pawb yng Nghymru chwarae eu rhan i sicrhau eu llwyddiant.

26. Wrth ystyried cyfathrebu ac ymgysylltu, awgrymwn fod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a ail-lansiwyd y flwyddyn hon gan y Prif Weinidog.

27. Mae'n werth nodi bod ymgysylltu â mudiadau a chefnogwyr sy'n ymgorffori nodweddion gwarchodedig ac sydd â phrofiad byw o'r cyfranwyr croestoriadol i dlodi yn ymwneud â mwy nag ymgynghori yn unig; mae angen cefnogi, grymuso a galluogi'r bobl a effeithir i fod yn gyfranogwyr gweithgar a chyfartal mewn trafodaethau a dod o hyd i ddatrysiadau neu roi datrysiadau ar waith. Gall cyrff cyhoeddus gael trafferth ymgysylltu ag unigolion am bob math o resymau, yn anad dim, am ei fod yn gwneud y trawma'n waeth. Weithiau, mae angen ymyrraeth a chymorth mudiadau llawr gwlad a mudiadau a arweinir gan gymheiriaid i roi'r hyder sydd ei angen ar bobl i gymryd rhan mewn gwaith llunio polisïau a dylunio gwasanaethau perthnasol, a pharhau i fod yn rhan o hyn. Fodd bynnag, mae'r cyllid ar gyfer y math hwn o weithgarwch yn gyfyngedig ac yn aml yn anhygyrch.

DARPARWCH DYSTIOLAETH O GYSYLLTIADAU A RHYNGDDIBYNIAETHAU RHWNG Y CERRIG MILLTIR A'R DANGOSYDDION

28. Fel y nodwyd uchod, mae hwn yn waith croestoriadol iawn. Ni ddylai unrhyw un gael ei roi dan anfantais yn fwriadol wrth i Lywodraeth Cymru geisio gwneud cynnydd tuag at gyflawni rhai o'r cerrig milltir hyn. Dyma pam y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru dalu sylw arbennig i'w Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, yn ogystal â'i Chynllun gweithredu LHDTC+ a'r fersiwn ddiweddaraf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Ni all y gwaith tuag at gyflawni'r Cerrig Milltir hyn lesteirio'r gwaith tuag at gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu LHDTC+ na'r Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu. Hefyd, byddai'n hawdd esgeuluso'r newid yn yr hinsawdd wrth ymdrechu i gyflawni rhai o'r dangosyddion eraill a allai fod â chanlyniadau mwy disyfyd a

diriaethol. Rhaid osgoi hyn. Dylai nodau Cymru Sero Net fod yn rhan ganolog o'r gwaith ar y Cerrig Milltir a'r Dangosyddion.

29. Nodwn hefyd y gall y garreg filltir genedlaethol ar gyfer gwirfoddoli fod yn ddangosydd o faint o effaith mae gwaith tuag at gerrig milltir eraill wedi'i chael (e.e. byddai disgwyliad oes hirach yn galluogi pobl i wirfoddoli am hirach ar ôl ymddeol), ac yn gymorth i gerrig milltir eraill (e.e. bydd mwy o wirfoddoli sy'n ymwneud â chadwraeth yn cyfrannu at y garreg filltir ar fioamrywiaeth).

30. Hoffai CGGC weld gwybodaeth debyg yn cael ei chasglu ar gyfer y sector gwirfoddol fel sydd ar gyfer busnesau.

- Y ganran o fusnesau sy'n arloesol – byddai'n ddefnyddiol casglu'r data hwn ar fudiadau gwirfoddol hefyd
- Ôl troed byd-eang Cymru – byddai'n ddefnyddiol rhannu hwn i gynnwys ôl troed ar wahân ar gyfer y sector gwirfoddol
- Capasiti (mewn MW) y cyfarpar ynni adnewyddadwy a osodwyd – a yw'n bosibl cael dadansoddiad i weld pa gyfran o'r rhain sy'n cael eu harwain gan y sector gwirfoddol neu sy'n eiddo i'r sector?
- Canran y bobl mewn cyflogaeth – eto, byddai'n ddefnyddiol cael dadansoddiad ar gyfer y sector gwirfoddol, ynghyd â gwybod y ffigurau ar gyfer contractau parhaol/dros dro o fewn y sector a phwy sy'n ennill o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Gwahaniaeth cyflog yn ôl y rhywiau, anabledd ac ethnigrwydd – A allai hyn gael ei gasglu mewn modd a fyddai'n rhoi dadansoddiad ar gyfer y sector gwirfoddol?
- Canran y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gyrraedd/cael mynediad at y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

31. Rydym yn credu bod y dangosydd 'y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol' yn parhau i hepgor rhywbeth pwysig. Rydym ni eisiau gwybod pwy sy'n teimlo y gallent gyfrannu at wneud newid cadarnhaol, nid pwy sy'n teimlo y gallant 'ddylanwadu' ar bobl eraill yn unig. Byddai'r cydberthynasau rhwng 'canran y bobl sy'n unig' a'r cwestiynau ar 'ganran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i ardal: bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn dod ymlaen yn dda â'i gilydd; bod pobl yn trin ei gilydd â pharch' yn helpu i roi mewnwelediad go iawn i ni ar y gwahaniaeth y mae hyn yn ei wneud. Yn ddelfrydol, byddem eisiau gallu deall hefyd i ba raddau y mae hyn yn cysylltu â phobl sydd ag ymdeimlad o berthyn ac ymdeimlad o ddiben o ganlyniad. Mae'r rhain mor bwysig i lesiant pobl.

UNRHYW SYLWADAU ERAILL?

32. Mae ymateb CGGC wedi'i lywio gan sgyrsiau â'r sector gwirfoddol, gan gynnwys seilwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru, yn ogystal ag arolwg o'r sector. Cyn yr arolwg hwn, gwnaethom benderfynu canolbwyntio ar gwestiynau ar bedwar o'r dangosyddion yr oeddem yn credu a oedd yn fwyaf perthnasol i'n haelodaeth ac i'r sector gwirfoddol yn gyffredinol. Dyna pam nad ydym wedi ateb pob cwestiwn o fewn yr ymgynghoriad.

33. Diolchwn i Lywodraeth Cymru am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac i gyflwyno rhai o safbwyntiau'r sector gwirfoddol.

34. Byddwn yn fwy na bodlon trafod y pwyntiau hyn ymhellach gyda Gweinidogion neu swyddogion Llywodraeth Cymru yn ôl y gofyn.

David Cook a Natalie Zhivkova

Swyddog Polisi a Swyddog Polisi Gwirfoddoli, CGGC

Awst 2022